NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Nivolumab ar gyfer trin lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin

26 Gorffennaf 2017

Mae nivolumab (Opdivo) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin mewn oedolion sydd eisoes wedi cael brentuximab vedotin a thrawsblaniad bôn gelloedd gan ddefnyddio eu celloedd eu hunain.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Y Gymdeithas Lymffoma, 0808 808 5555
- Bloodwise  (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol) , 0808 2080 888
- GOFAL Lewcemia, 08088 010 444
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- CLL Support Association, 0800 977 4396

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2612-1

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights